

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Edmund Rees

Nos Lun Rhagfyr 3ydd 2018 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Paul Weston
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Cyng. Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Tachwedd** cynigiwyd yn gywir gan Alun Owen gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Ffermydd Gwynt Clocaenog a Brenig – cynigiodd Gari Jones gyda Gerallt Jones yn eilio ein bod yn anfon llythyr at y ddau gwmni yn awgrymu fod trawstoriad teg ar y panel wrth drafod y gronfa yn cael ei gweithredu. Mae'r loriau trymion sy'n cario'r trybini yn achosi difrod i wyneb y ffordd a thrigolion yr ardal yn dioddef anhwylystod o ganlyniad i gau'r ffordd yn rheolaidd.
  - 5.2. Fan wedi gadael wrth yr ysgol wedi cael ei symud.
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. Chwarae Allan – Cytunwyd ar 2 sesiwn fel llynedd os bydd cymhorthdal ar gael.
  - 6.2. Llywodraeth Cymru – Gwariant Adran 137 ar gyfer 2019-20 ydi £8.12 x 262 o etholwyr = £2,127.44.
7. **Monitro'r Gyllideb**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Talu Anfonebau:**
  - 8.1. Canolfan Gymdeithasol Pentrefoelas – Tâl aelodaeth – cynigiodd Alun Owen gyda Gerallt Jones yn eilio talu'r **£25.00** gyda siec rhif **100297**. (S.150)
  - 8.2. Goleuadau Nadolig – cynigiodd Gari Jones gyda Gerallt Jones yn eilio talu'r anfoneb o £72.47 + TAW £14.50 = **£86.97** gyda siec rhif **100298**. (S.144)
  - 8.3. Costau'r Clerc am 4 mis o Awst i Dachwedd – cynigiodd Gari Jones gyda Gerallt Jones yn eilio talu'r **£172.06** gyda siec rhif **100299**. (S.150)
  - 8.4. Coeden Nadolig – cynigiodd Gerallt Jones gyda Gari Jones yn eilio talu'r anfoneb o £180.00 + TAW £36.00 = **£216.00** i Lloyd Forestry Products gyda siec rhif **100300**. (S.144) xxxxxx
9. **Gosod y Gyllideb:**

Ar ôl edrych dros y gyllideb yn fanwl ac addasu ychydig cynigiodd Alun Owen gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn ei derbyn.
10. **Gosod Presept 2019-20:**

Cynigiodd Gari Jones gyda Gerallt Jones yn eilio a phawb yn gytûn godi'r presept £200.00 hun o £3,900.00 i **£4,100.00**.
11. **Gair gan y Cyng. Sirol Garffild Lewis:** y Cyngor Sir yn dal i weithio ar y gyllideb.
12. **Unrhyw fater arall:**
  - 12.1. Goleuadau Nadolig – ar ôl cael archwiliad o'r goleuadau cafwyd wybod ei bod wedi methu'r prawf diogelwch ac yna ar gynigiad Gari Jones gyda Gerallt Jones yn eilio cytunwyd i archebu rhai newydd ar gost o £86.97. Yna cafwyd cynigiad ein bod yn anfon at Bwyllgor y Ganolfan i ofyn iddynt rannu cost y goleuadau a'r goeden ac yna mynd yn rhannol am y goeden yn y dyfodol.
  - 12.2. Safle ar werth gan y Cyngor – angen mwy o wybodaeth.
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Ionawr 8fed 2018 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd E Rees  
Cadeirydd

Dyddiad 07.01.19



